# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 11 Mehefin 2013** |
| Amser: | **08:30 - 08:50** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Lesley Griffiths**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Virginia Hawkins, Pennaeth Pwyllgorau Cynulliad dros dro**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Aled Elwyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Siambr**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cafodd y cofnodion eu nodi gan y Pwyllgor i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3(i) Busnes yr wythnos hon

Nododd y Pwyllgor Busnes y bydd y Gweinidog Cyllid yn gwneud datganiad ar y 'Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi – Adroddiad Blynyddol 2013' ddydd Mawrth.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y bydd y Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3(ii) Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Fusnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar y drefn fusnes, a chytunodd ar yr eitemau o fusnes a ganlyn:

**Dydd Mercher 3 Gorffennaf 2013**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Drafnidiaeth Integredig yng Nghymru (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Horizon 2020: Cyfnod 2 (60 munud)

Nododd y Rheolwyr Busnes y bydd y Cynulliad yn cael ei ofyn i fabwysiadu drwy benderfyniad dwy gyfres newydd o ganllawiau, sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Pwyllgor Safonau i'r Cynulliad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol yn y cyfnod 2003-13, yn ystod y ddadl ar yr adroddiad hwnnw.

## 4 Deddfwriaeth

4(i) Balot am Filiau Aelod (Rheol Sefydlog 26.89)

Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r grwpiau, dychwelodd y Pwyllgor Busnes i drafod papur yn amlinellu opsiynau ar gyfer newid y Rheolau Sefydlog mewn perthynas â'r broses o

gynnal balot ar gyfer Biliau Aelod, gan gynnwys y darpariaethau penodol a amlinellir yn Rheol Sefydlog 26.89 sy'n caniatáu i Aelodau wneud cais mewn balot fwy nag unwaith yn ystod unrhyw un o dymhorau'r Cynulliad.

Ar ôl cytuno y dylai'r Rheolau Sefydlog gael eu diwygio, bu'r Rheolwyr Busnes yn ystyried tri opsiwn i symud ymlaen â'r broses. Nododd Lesley Griffiths, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, a William Graham fod yn well ganddynt opsiwn 2 – sef cael gwared yn gyfangwbl ar y posibilrwydd fod Aelodau'n cael eu dewis fwy nag unwaith drwy adolygu'r Rheolau Sefydlog, tra roedd yn well gan Elin Jones ac Aled Roberts opsiwn 2 – sef cyfyngu ar gyfleoedd Aelodau i ail-geisio mewn balot.

Cynigiodd y Llywydd, felly, fod y Pwyllgor Busnes yn cytuno ar opsiwn 2. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.5(ii), cytunodd y mwyafrif i'r cynnig. Pleidleisiodd yr Aelodau a ganlyn o blaid y cynnig: Lesley Griffiths (30), William Graham (14). Pleidleisiodd yr Aelodau a ganlyn yn erbyn y cynnig: Elin Jones (11), Aled Roberts (5). Bydd ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes yn paratoi adroddiad drafft i'r Pwyllgor gytuno arno.

## 5 Rheolau Sefydlog

5(i) Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 18 – Cyfrifon Cyhoeddus ac Arolygu Swyddfa Archwilio Cymru

Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried cynigion i ddiwygio Rheol Sefydlog 18 er mwyn galluogi'r Cynulliad i ddirprwyo swyddogaethau o dan y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) mewn perthynas ag arolygu Swyddfa Archwilio Cymru i bwyllgor cyfrifol.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'r grwpiau a dychwelyd at y mater yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 26 Mehefin 2013.